# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 24/02/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iwan Hughes | Thomas Victor Jones | John Brinley Jones | Barbra Warren |
| D Andrew Parry | Evan Glyn Thomas | Rhian Parry | |
| | | Clerc | |

1. **<u>Ymddiheuriadau</u>**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Clair Russell Griffiths, Penri Jones a William Roger Jones

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Dim

3. **<u>Cofnodion 24/01/2020</u>**
   Mae Andrew Parry yn cynnig (eilydd: Victor jones) derbyn Cofnodion 24/01/2020 yn gywir, mae'r cynnig yn llwyddiannus ac mae'r Cadeirydd yn eu harwyddo.

4. **<u>Unrhyw Fater Brys</u>**
   - Cydymdeimlo gyda Clair Russell Griffiths ar colli ei Thid yn ddiweddar.
   - **Aelodaeth Un Llais Cymru –** Derbyniwyd ffurflen adnewyddu aelodaeth. Mae'r costau yn £239.00 eleni. Nodwyd Victor jones bod y gwyboaeth a chyngor derbynwyd gan Unllais Cymru yn wych ac yn werth yr arian. Cytunwyd yw rhoi ar y rhestr taliadau.
   - **Anfoneb Dwr y Fynwent –** Mae'r aelodau yn cytuno yw rhoi ar y rhestr taliadau. £101.16
   - **Hyfforddiant** - Rhestr wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru fod llefydd ar gael ar hyfforddiant 05/03/2020
   - **Cais cynllunio** – Cais wedi ei dderbyn ers gyrru'r agenda, cytunwyd ei drafod yn y cyfarfod.
   - **Lloyds -** Derfynwyd llythyr gan y banc yn cadarnhau bod y manylion bellach wedi ei newid. Nodir bod y Rhian Parry (Clerc) Iwan Hughes (Cadeirydd) John B Jones (Is-gadeirydd) a Evan Glyn Thomas (Aelod) nawr yn gyfrifol am y cyfrif cyffredinol. Gall y Clerc fynd ymlaen a'r gwaith ariannol.
   - **Natwest** - Mae Victor Jones wedi derbyn gwybodaeth gan y banc am cyfrif rhodd y fynwent. Mae'r wybodaeth yn galluogi I'r Clerc gysylltu gyda'r banc I ddiweddaru'r cyfrif.
   - **Un Llais Cymru** – Bu i Victor Jones mynychu cyfarfod ardal yn ddiweddar nodwyd bod wedi cael cyflwyniad gan Arfon Jones o Heddlu Gogledd Cymru; trafodwyd trais yn y cartref, troseddau ar y we, troseddau cyllill a chyffuriau. Nodwyd bod hyfforddiant ar gal am trais ar y we.
   - **Di-blasic** – Derbyniwyd llythyr gan Ffion Haf Swyddog Prosiect Cludiant a Threfi Di-Blastig; ynglŷn â phrosiect cartrefi ddi-blastig. Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i leihau defnydd o blastig na all ei ail-gylchu. Gofynnwyd a dymunir i Llanbedrog cymryd rhan yn y fenter ac anelu i fod yn bentref ddi-blastig. Nodwyd bod rap silwair yn broblem fawr. Cynigwyd Victor Jones (Eilydd: Andrew Parry) fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol iddynt yrru i drigolion a busnesau'r pentref.

5. **<u>Cae chwarae</u>**
   Nodwyd Barbra Warren bod cyfarfod wedi ei gynnal gweler cofnodion **Atodiad 1.** Mae ail gyfarfod wedi ei drefnu 09/03/2020.

6. **<u>Y Fynwent</u>**
   Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad hefo 4 ymgynghorwr. Mae un o'r ymgynghorwyr wedi nodi fod y modurdy yn defnyddio rhan o'r safle fel maes parcio bellach. Mae'r cynghorwyr yn nodi bod hyn wedi digwydd ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio, yn sgil hyn bydd rhaid ail wneud cais cynlluniau ar gyfer cais cynllunio a ni ellir defnyddio'r cynlluniau gwreiddiol. Cytunwyd yr amodau i drefnu ymweliad safle gyda'r ymgynghorwyr er trafod y prosiect a symid ymlaen.

Rydym wedi derbyn cwyn fod giatiau'r fynwent yn agored o hyd. Cytunwyd i gael arwydd dwyieithog i osod ar y postyn giât i atgoffa pobl i gau'r giât.
Mae Victor a Jean Price wedi archebu sticker bin brown er gwagio gwastraff gardd. Gan eu bod yn ei ddefnyddio eu gwastraff nhw I wastraff y fynwent cytunwyd I dalu yr anfoneb pan y derbyniwyd.

7. **Awdit**
Mae'r gwaith dal i fynd yn ei flaen. Bu'r Clerc dderbyn llythyr gan banc Lloyds yn nodi bod manylion bellach yn gywir. Mae bellach mynediad i gyfrif banc y Cyngor Cymuned felly gellir bwrw ymlaen gyda'r gwaith ariannol.

8. **Rhestr Eiddo**
Gwaith yn mynd yn ei flaen, mae'r Clerc wedi gofyn am fapiau A3 neu A4 o Llanbedrog gan Gyngor Gwynedd er nodi'r holl eiddo arnynt.

9. **Llwybrau**
Gwaith yn mynd yn ei flaen, mae'r Clerc wedi gofyn am fapiau A3 neu A4 o Lanbedrog gan Gyngor Gwynedd er nodi'r llwybrau arnynt.
Bu i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er trefnu ad-daliad llwybrau.

10. **Traethau**
Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ac Aelod o'r cyhoedd sydd yn trefnu deiseb er gwahardd cwn heb dennyn ar ran o'r traeth. Mae'r mater bellach wedi ei ddatrys.
Mae'r Aelodau yn cadarnhau bod y gwaith peirianyddol yn parhau ar y traeth. Bu I'r Clerc gyrru I Gyngor Gwynedd I holi am y gwaith yma gyda dim ymateb. Nodwyd Victor Jones bod cais wedi bod gerbron y pwyllgor yn fis Mai 2018 yn nodi gwaith ar goed o dan orchymyn gwarchod coed. Nid oedd y pwyllgor yn teimlo bod y pennawd "Gwaith peirianyddol i sefydlogi llethr arfordirol a gwaith cysylltiedig i dynnu coed sy'n rhan o grŵp Gorchymyn Gwarchod Coed" a ddefnyddir ar y cais yn ddigonol o ystyried yr holl waith peirianyddol sydd yn cael ei wneud. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na roddir ddigon o ystyriaeth i'r cais yn ei gyfanrwydd.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.
Derbyniwyd nodyn gan Barry Davies o Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r bolardiau peryglus ar fynedfa i'r traeth. Nodwyd Mr Davies bod y bolardiau wedi eu gwaredu er hwylustod i'r gwaith sydd yn mynd ymlaen ar y traeth. Bu yn archwilio cyn gynted a bod modd.

11. **Yswyriant**
Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn dyfynbris a manylion am yswiriant gan Came & Co. Zurich ydi'r pris gorau; Os cytunwyd I 3 mlynedd mae'n £550.68 y flwyddyn. Mae Evan Glyn Thomas yn cynnig (Eilydd: John B Jones) ein bod yn mynd ar 3 mlynedd gyda Zurich. Mae'r Cynnig yn llwyddiannus.

12. **Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd**
Dim Diweddariad

13. **Eisteddfod Genedlaethol 2021**
Yn dilyn Cyfarfod Cyhoeddus 21/01/2020 mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu yn y pentref I godi arian. Nodwyd yn y cyfarfod bod y Cyngor Cymuned yn gwneud cyfraniad.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 24/02/2020 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc -** Rhian Parry Chwefror | **£333.33** |
| **Microsoft Office -** Rhian Parry | **£79.99** |
| **Ashley Hughes –** Offer Swyddfa | **£143.92** |

**Taliadau wedi eu Gwneud**

| | |
|---|---|
| Dim | **£0.00** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| Dim | **£0.00** |

**Ceisiadau Cynllunio**

**C20/0089/38/DT**
Estyniad un llawr a deulawr
Bryn Du House Lôn Pin, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7PG
**Dim Gwrthwynebiad**

**Gohebiaeth**

1. **Clerks & Council Direct –** Newyddlen
2. **Mabon Ap Gwynfor -** Diweddariad ymgyrch canolfan canser
3. **Llywodroaeth Cymru -** SDCau - diwygio arfaethedig i ddau Orchymyn Draenio Cynaliadwy
4. **Un Llais Cymru -** Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
5. **Prifysgol Glyndŵr -** Rhwystrau Trafnidiaeth i Gyflogaeth yng Ngogledd Cymru
6. **Un Llais Cymru -** Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Buddddeiliaid Betsi Cadwaladr – Rhagfyr 2019
7. **Keep Britain Tidy -** Get ready for the Great British Spring Clean
8. **Un Llais Cymru -** Sessiwn Hyfforddiant
9. **Cyngor Gwynedd -** Gwahoddiad i Weithdy Syniadau
10. **Un Llais Cymru -** Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21 Adnewyddu manylion aelodaeth
11. **AHNE -** Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn
12. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** Datganiad i'r Wasg: Amser i fynd Adref

**Cais am gyfraniad**

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH –** Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog –** Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru –** Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie** – Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli –** Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb –** Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws –** Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd –** Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support** – Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru** - Cais am gyfraniad

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

### Atodiad 1

**<u>Cyfarfod 27ain Ionawr 2020</u>**

Yn bresennol: - Barbara, Miriam, Alaw, Vicky, Helen, Angela, Becca ac Emily
Miranda- Trysorydd
Alaw - Cadeirydd
Becca - Is-gadeirydd
Barbara - Ysgrifennydd

Y sefyllfa bresennol dwy set o siglenni a chylchfan, mae popeth arall yn cael ei gondemnio. Parc sglefrio yn iawn ar hyn o bryd.

Mae Miranda wedi sefydlu cyfrif banc Lloyds ar gyfer y grŵp codi arian.

Camau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf
Emily i ofyn i Rhodri am gyfrifoldeb y parc ac i gysylltu ag Anna o Edern.
Emily i gynnal holiadur plant ysgol Llanbedrog i weld beth hoffent weld yn y yn y parc newydd.

Digwyddiadau codi arian wedi eu cynllunio a'u hawgrymu.

1. Cysylltu â busnesau lleol am noddwyr.
2. Teithiau cerdded a noddir.
3. Penllyn Ultra, Barbara, Miriam ac Angela!
4. Taith gerdded noddedig i blant i draeth y Chwarel.
5. Arwerthiant ar-lein.
6. Eisteddfod bach.
7. Ffair haf.
8. Cystadleuaeth castell tywod a ras hwyl ar lan y mor.
9. Blychau casglu ac tocynau arian asda- gofyn I Sarah mam Benjy.
10. Helfa drysor.
11. Noson cwis yn Ship, gofyn i Helen.
12. Angela yn holi am gist car Penrhos yn fisol trwy'r Haf.
13. Plant ysgol i gael cystadleuaeth logo y parc.

Digwyddiad cyntaf

Taith gerdded noddedig Llwybyr Y Morwyr 28/3/20 £10 oedolyn i gofrestru

Alaw yn sefydlu tudalen FB cae chwarae a bydd yn cynnal digwyddiad ar gyfer y daith gerdded noddedig.

Bwyd ar ôl y daith gerdded yn y Glyn y Weddw a raffl.

Gan ddechrau am 10am.

Gofyn O ddrws i ddrws am fysiau.

Cyfarfod nesaf dydd Llun 9fed Mawrth 7pm.